Llwybrau a chanlyniadau addysgol

plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal

Awduron

Dr Emily Lowthian (Prif Ymchwilydd)

Yr Athro Tom Crick (Cyd Brif Ymchwilydd)

Dr Stuart Bedston

Dr Alex Lee

Yr Athro Ashley Akbari

Yr Athro Lucy Griffiths

Dr Jon Heron

Dr Gemma Hammerton

Yr Athro Donald Forrester

Gyda diolch arbennig i'r canlynol:

LLEISIAU CASCADE a Rachael Vaughan, Tracy Clapham, Nikki Gregg, Dr Rebecca Anthony a holl aelodau eraill y grŵp cynghori, athrawon ysgolion cynradd yn Abertawe, SAIL, a'u panel defnyddwyr a wnaeth gyfraniadau amhrisiadwy i'r prosiect hwn.

Cysylltwch â ni:

Os hoffech inni siarad â'ch sefydliad chi am yr ymchwil hon, neu os oes gennych ddiddordeb mewn cyflwyno'r ymchwil hon yn eich sefydliad chi, cysylltwch â Dr Emily Lowthian – e.m.lowthian@swansea.ac.uk. Rydym yn awyddus iawn i weithio gyda llunwyr polisi, sefydliadau'r llywodraeth a'r trydydd sector yn y maes hwn i wella'r ymchwil a'r arferion.

Dyluniwyd gan IconCreativeDesign.com

Cyflwyniad

Mae plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gallu bod â chyrhaeddiad addysgol is a phrofiad gwaeth o'r ysgol.[1, 2, 3] Efallai y byddan nhw hefyd yn profi amddifadedd, anghenion addysgol arbennig, anawsterau ymddygiad, ac ansefydlogrwydd sylweddol. Mae i gyrhaeddiad is oblygiadau sylweddol ar gyfer canlyniadau bywyd. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod perfformiad gwael yn yr ysgol yn gysylltiedig â phroblemau seicogymdeithasol ymhlith plant mewn gofal maeth;[4] mae cyrhaeddiad addysgol hefyd yn gysylltiedig yn aml â chyflogaeth a statws economaidd-gymdeithasol, sydd â chysylltiadau ag iechyd a disgwyliad oes gwael.[5, 6, 7]

Bylchau yn ein gwybodaeth

Hyd yn hyn bu'r rhan fwyaf o'r ymchwil ystadegol yn edrych ar gysylltiadau rhwng profiad o fod mewn gofal a chyrhaeddiad addysgol heb ymchwilio i'r rhesymau dros fylchau mewn cyrhaeddiad. Gwelodd un adroddiad[8] mai plant â phrofiad o fod mewn gofal dros dymor hirach sydd â'r graddau uchaf, tra plant oedd mewn gofal am gyfnodau byrrach oedd isaf eu perfformiad; ond bod plant sydd â phrofiad cynnar a hwyr o fod mewn gofal yn perfformio rhwng y ddau hyn.

Gwelodd astudiaeth ddiweddar[9] fod ffactorau risg ar gyfer canlyniadau addysgol plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cynnwys y rhai ag anhwylder y sbectrwm awtistig neu â gwaharddiad parhaol; gwelodd astudiaeth arall[10] fod un rhan o bump o blant wedi dal i fyny'n academaidd pan gawsant eu rhoi mewn ysgolion lle mae disgyblion dan anfantais addysgol yn perfformio'n academaidd. Er bod yr astudiaethau hyn yn werthfawr, mae yna lawer o feysydd heb eu harchwilio ym mywydau plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cyfrannu at eu perfformiad addysgol, ac mae'r ymchwil[11] yn dangos mai ychydig yn unig o ymyriadau neu raglenni sydd wedi llwyddo i wella canlyniadau addysgol. Rhaid inni ddeall yn gyntaf y berthynas rhwng profiadau o ofal a chyrhaeddiad addysgol ar raddfa fawr, ac wedyn nodi ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol allweddol i helpu ysgolion i wneud penderfyniadau gwybodus.

Nodau ac amcanion y prosiect

1. Byddwn yn defnyddio data ar hyd cyfnod plant mewn gofal, yr oedran y daethant i mewn i ofal am y tro cyntaf, a'r math o leoliad(au) er mwyn eu proffilio'n grwpiau homogenaidd – neu broffiliau. Byddwn yn gwneud hyn mewn dau gam:

   a. Ar gyfer y blynyddoedd cynnar – y 6/7 mlynedd cyntaf o fywyd

   b. Ar gyfer y cyfnod cyn y glasoed – y 10/11 mlynedd cyntaf o fywyd

2. Gan ddefnyddio'r ddau grŵp newydd hyn, byddwn yn amcangyfrif eu cyrhaeddiad addysgol yn 7 ac 11 oed (CA1, CA2); mae'r cyfnodau asesu hyn yn dilyn y proffiliau gofal sydd wedi'u nodi uchod.

3. Er mwyn deall "beth sy'n gweithio" i ysgolion, byddwn yn edrych ar agweddau ar ffactorau iechyd a ffactorau ysgol unigol i esbonio'r berthynas rhwng y profiad o fod mewn gofal dros y 10 mlynedd cyntaf o fywyd a chyrhaeddiad TGAU (5 A*-C, gan gynnwys Iaith a Mathemateg).

Methodoleg

Defnyddiodd yr ymchwil ddata wedi'i anonymeiddio ar raddfa poblogaeth ac ar lefel unigolyn, a hwnnw'n cael ei gadw yn y Banc Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), sy'n amgylchedd ymchwil dibynadwy.

Aethpwyd ati i adeiladu carfan electronig o blant, gan nodi pob genedigaeth yng Nghymru rhwng 1 Medi 2000 a 31 Awst 2003 a'u dilyn hyd at ddiwedd yr ysgol uwchradd. Defnyddiwyd data gofal cymdeithasol i adnabod plant oedd â phrofiad o fod mewn gofal, a chysylltwyd eu cofnodion addysgol. Cafwyd gwybodaeth am iechyd meddwl, amddifadedd, rhyw, nodweddion geni ac anawsterau dysgu o ffynonellau data eraill yn SAIL.

Sut cafodd profiadau o fod mewn gofal ac addysg eu mesur

Isod, rydym yn amlinellu pob un o'n mesurau a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad i ddiffinio sut yr aethon ni ati gyda'n nodau.

Profiad mewn gofal

Cyfunwyd y data dros y blynyddoedd a datblygu amcangyfrifon o i) oedran y plant wrth fynd i mewn i ofal, ii) hyd y gofal, iii) y math o leoliad (maethu, perthynas, mabwysiadu, rhieni), a iv) rhesymau pam y daeth eu lleoliad gofal i ben (dychwelyd adref, dod i ben oherwydd mabwysiadu).

Cyrhaeddiad addysgol

Amcangyfrifwyd a oedd y plentyn wedi cyrraedd y lefel addysg a ddisgwylir yn genedlaethol yn CA1 (6/7 oed), CA2 (10/11 oed) a TGAU (5 A*-C, 15/16 oed); roedd yr holl asesiadau'n cynnwys iaith a mathemateg.

Newidynnau a allai esbonio cyrhaeddiad addysgol

Defnyddiwyd y mesurau ysgol uwchradd a'r mesurau unigol a ganlyn i archwilio a oeddent yn helpu i esbonio'r berthynas rhwng profiadau o fod mewn gofal a chyrhaeddiad addysgol:

- **Anghenion addysgol arbennig (Ie/Na)**
- **Symud ysgol (Ie/Na)**
- **Atal neu wahardd (Ie/Na)**
- **Prydau ysgol am ddim (Ie/Na)**
- **Presenoldeb ysgol (<80% yn achos pryder/>80%)**
- **Diagnosis iechyd meddwl (Ie/Na)**

Ffactorau pwysig eraill

Ystyriodd ein hymchwil agweddau eraill fel ffactorau a all ragfynegi cyrhaeddiad addysgol:

- **Amddifadedd**
- **Rhyw'r Plentyn**
- **Grŵp ethnig**
- **Nodweddion geni**
- **Oedran y fam**
- **Blwyddyn Geni**

Cynnwys y rhanddeiliaid a’r rhai sydd â phrofiad byw

Yn gyntaf, buom yn gweithio gyda Lleisiau CASCADE, sef grŵp cynghori o bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac sy'n cefnogi syniadau a datblygiadau ymchwil, i ystyried perthnasedd gwahanol fathau o leoliadau yn natblygiad y grwpiau a ddangosir yn yr adroddiad hwn. Cafodd ein canlyniadau eu cyfleu hefyd i'r bobl ifanc hyn cyn i unrhyw ganlyniadau gael eu cyhoeddi neu eu lledaenu, er mwyn deall effaith ein canlyniadau. Drwy hyn, gwelsom fod ein mesurau o ganlyniadau addysgol yn amrwd, ac yn lled-guddio canlyniadau addysgol ehangach y mae plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn eu teimlo a'u deall. Nid stigmateiddio yw bwriad ein hymchwil ni, ond yn hytrach nodi pa grwpiau sydd angen cymorth i gyrraedd eu potensial.

Yn ail, cyn dechrau'r prosiect, buom yn gweithio gyda grŵp Panel Defnyddwyr SAIL[12] er mwyn deall canfyddiad ehangach y cyhoedd o nodau ac effeithiau'n hastudiaeth. Yn drydydd, buom yn gweithio gydag athrawon ysgolion cynradd i ddeall safbwyntiau proffesiynol a'u dealltwriaeth o blant â phrofiad o fod mewn gofal yn ystod camau cychwynnol ein gwaith. Yn olaf, buom yn gweithio gyda grŵp cynghori sy'n cynnwys academyddion, swyddogion o'r llywodraeth a chysylltiadau mewn gofal cymdeithasol i roi adborth ar ddyluniad ein hymchwil, ein dadansoddiad ystadegol a'n strategaethau lledaenu. Aethon ni ati i fwydo'n holl waith ymgynghori i'n cynllun dadansoddi ystadegol a cheisio bodloni'r syniadau a'r awgrymiadau a godwyd (lle roedd data ar gael).

Moeseg

Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer yr astudiaeth hon ar 18 Tachwedd 2022 gan Brifysgol Abertawe (SU-Ethics-Staff-181122/541). Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio data dienw a gedwir ym Manc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL).[13, 14, 15, 16 ,17] Hoffem gydnabod yr holl ddarparwyr data sy'n trefnu bod data dienw ar gael ar gyfer ymchwil. Mae gennyn ni gymeradwyaeth Panel Adolygu Llywodraethiant Gwybodaeth (IGRP) SAIL ar gyfer prosiect rhif 1391.

Sut mae proffiliau symud mewn gofal yn y blynyddoedd cynnar yn cysylltu â CA1?



Defnyddiwyd oedran mewn gofal, hyd y cyfnod mewn gofal a'r math o leoliadau (maethu, perthynas, rhiant, a mabwysiadu) yn y blynyddoedd cynnar tan yr arholiad cyntaf (CA1). Byddwn yn gallu deall sut mae gwahanol symudiadau mewn gofal yn rhagfynegi CA1.

Sut mae proffiliau symud mewn gofal yn y cyfnod cyn y glasoed yn cysylltu â CA2?



Defnyddiwyd oedran mewn gofal, hyd y cyfnod mewn gofal a'r math o leoliadau (maethu, perthynas, rhiant, a mabwysiadu) yn y 10-11 mlynedd gyntaf o fywyd (cyn y glasoed) hyd at asesiad yn 10-11 oed (CA2). Byddwn yn gallu deall sut roedd profiadau gofal yn gysylltiedig â CA2, wedi'u haddasu ar gyfer agweddau pwysig eraill.

Deall “beth sy’n gweithio” ar gyfer canlyniadau addysgol plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal



Bydd gennym berthynas syml rhwng y proffiliau profiad gofal a'r canlyniadau addysgol, ond mae'r llwybr rhwng y rhain (mewn dotiau) yn fodd inni ddeall a allai agweddau unigol neu agweddau ysgol fod yn ffactorau risg neu'n ffactorau amddiffynnol tuag at gyrhaeddiad mewn TGAU. Addaswyd ein holl ddadansoddiadau yn y fan yma ar gyfer rhyw ac amddifadedd adeg geni.

Canfyddiadau

Roedd gennyn ni 610 o blant yn ein dadansoddiad ar gyfer dadansoddi profiad mewn gofal yn ystod y blynyddoedd cynnar ar ganlyniadau CA1, ac yna roedd gennyn ni 1,140 o blant yn ein dadansoddiad cyn y glasoed ar gyfer canlyniadau CA2. Rydym yn cyflwyno pob un o'n dadansoddiadau ar gyfer CA1, 2 ac wedyn TGAU (N=1,120) fel bod rhywfaint o ddealltwriaeth o sut mae'r profiad gofal yn ymwneud ag addysg dros gwrs bywyd.

62%

Pasio asesiad CA1

60%

Pasio asesiad CA2

14%

5 TGAU A*-C gan gynnwys iaith a mathemateg

Yn y boblogaeth gyffredinol, mae tuag 80% yn bodloni CA1 a CA2, a 45% yn cyflawni 5 A*-C gan gynnwys iaith a mathemateg

Profiadau gofal yn y blynyddoedd cynnar a chyrhaeddiad addysgol

Defnyddiwyd data ar 610 o blant i ddisgrifio'u hoedran adeg eu mynediad cyntaf i'r system ofal, hyd y cyfnod gofal, a'r math o leoliad (maethu, gofal gan berthnasau, mabwysiadu a gofal rhieni) er mwyn dod o hyd i grwpiau oedd â phatrymau gofal tebyg. Isod rydym yn dangos diagram o'r grwpiau sy'n deillio o'r data hwn, gan gynnwys gwahanol fathau o ofal maeth a gwahanol ffyrdd o fynd iddo, mabwysiadu, y rhai a ddychwelodd adref yn gyflym, y rhai a gafodd leoliadau cymysg ac yna grŵp gofal gyda pherthnasau. Roedd gan bob un o'r grwpiau hyn gyrhaeddiad addysgol gwahanol.



Cyrhaeddiad addysgol y proffiliau gofal blynyddoedd cynnar

Mae tuag 81% o'r boblogaeth gyffredinol yn cyflawni CA1. Gwelsom mai plant wedi'u mabwysiadu oedd debycaf o gyflawni CA1, gyda 100% yn amcangyfrif wedi'i fasgio oherwydd maint bach y sampl. Gofal gyda pherthnasau oedd yn ail gyda 66% yn cyflawni CA1, ac yna'r rhai a adunwyd â'u teulu ar ôl cyfnod byr mewn gofal maeth. Roedd y rhai a gafodd leoliadau cymysg rhwng 58 a 65%, gyda'r rhai a aeth i ofal yn gynharach yn eu bywyd yn debycach o gyflawni CA1. Gofal maeth oedd ein grŵp olaf, oedd yn amrywio rhwng 40 a 63%. Roedd y rhai a ddaeth i ofal ychydig cyn dechrau yn yr ysgol yn llai tebygol o gyflawni (40%) o'i gymharu â'r rhai a ddaeth i mewn ar ôl dechrau yn yr ysgol (63%). Sylwch: cyfrannau cyfartalog yw'r rhain ac mae rhywfaint o ansicrwydd ar draws unigolion.

Mabwysiadu	100%
Gofal gyda pherthnasau	66%
Ailymuno â'r teulu	63%
Lleoliadau cymysg	58-65%
Gofal maeth	40-63%

Agweddau sy'n gysylltiedig â gofal yn ystod y blynyddoedd cynnar, a chyrhaeddiad addysgol yn 6/7 oed

Roedd gan ferched gynnydd o 15% yn yr ods o gyflawni'r graddau disgwyliedig

15%

Roedd gan blant a anwyd â phwysau geni isel ostyngiad o 17% yn yr ods o gyrraedd y graddau disgwyliedig

17%

Cefndiroedd difreintiedig

Roedd plant a brofodd ofal maeth cynnar heb leoliadau eraill yn llai tebygol o gael eu geni i gefndiroedd cefnog

Profiadau gofal cyn y glasoed a chyrhaeddiad addysgol yn 10/11 oed

Yma rydym yn dilyn profiadau gofal plant hyd at ddiwedd yr ysgol gynradd a'u canlyniadau yn CA2 (N = 1140). Isod rydym yn dangos diagram o'r grwpiau sy'n deillio o'r data hwn, gan gynnwys gofal maeth 6 oed, mabwysiadu, y rhai a ddychwelodd adref yn gyflym o ofal maeth ar wahanol oedrannau, y rhai a gafodd leoliadau cymysg ac yna grŵp gofal sy'n berthnasau. Roedd gan bob un o'r grwpiau hyn gyrhaeddiad addysgol gwahanol.



Cyrhaeddiad addysgol y proffiliau gofal cyn glasoed

Mae tuag 80% o'r boblogaeth gyffredinol yn cyflawni CA2. Gwelsom mai plant wedi'u mabwysiadu oedd y rhai mwyaf tebygol o gyflawni CA2, ond yn 60% maent yn dal i fod 20 pwynt canran o dan yr amcangyfrif cyffredinol o'r boblogaeth. Y rhai a adunwyd â theulu o ofal maeth yn y blynyddoedd cynnar oedd yr ail uchaf (52%), ond plant a adunwyd â theulu o ofal maeth yn ystod plentyndod diweddarach oedd â'r cyrhaeddiad isaf (36%). Roedd plant a gafodd leoliadau cymysg rhwng 42 a 48%, ond roedd gan y rhai a oedd wedi dod i ofal yn gynharach ganlyniadau is o'u cymharu â'r rhai oedd wedi mynd i mewn ychydig cyn yr ysgol gynradd. Roedd gan blant oedd wedi profi gofal maeth yn unig gyfran o 43%, tra bo'r grŵp a gafodd ofal gan berthnasau yn 45%. Gan hynny, ar wahân i fabwysiadu, rydym yn gweld bod gan blant mewn gofal gyfrannau cymedrig tebyg yn eu cyflawniad yn CA2, ac mae'n ymddangos bod oedran mynd i ofal yn amrywio gan ddibynnu ar y lleoliad. Rydym yn nodi mai cyfrannau cyfartalog yw'r rhain a bod yr unigolion yn amrywio yn ein hamcangyfrifon.

Mabwysiadu	60%
Gofal gyda pherthnasau	45%
Gofal maeth	43%
Lleoliadau cymysg	42-48%
Ailymuno â'r teulu	36-52%

Pa agweddau oedd yn gysylltiedig â'r proffiliau gofal a chyrhaeddiad addysgol yn 10/11 oed

Roedd gan ferched ods 11% yn uwch o gyflawni CA2

11%

Roedd gan blant o grwpiau Du, Asiaidd, Cymysg neu Ethnig eraill ods 21% yn fwy o gyflawni'r graddau disgwyliedig

21%

Roedd gan blant a anwyd i famau hŷn ods 4% yn llai o gyflawni'r graddau disgwyliedig

4%

Cymharu Mabwysiadu

O'u cymharu â phlant wedi'u mabwysiadu, roedd pob grŵp gofal arall yn llai tebygol o gael eu geni mewn lleoliadau cefnog

Grwpiau gofal gyda pherthnasau

Roedd grwpiau gofal gyda pherthnasau yn llai tebygol o gael eu geni i famau hŷn o'u cymharu â grwpiau wedi'u mabwysiadu

Gofal maeth ar ganol plentyndod

O'u cymharu â grwpiau wedi'u mabwysiadu, roedd y rhai a aeth i ofal maeth yng nghanol eu plentyndod am gyfnodau hir yn llai tebygol o fod â mamau hŷn

Yn ystod yr ysgol uwchradd, beth yw'r ffactorau risg neu'r ffactorau amddiffynnol ar gyfer cyrhaeddiad mewn TGAU?

Roedd gennym ddiddordeb ym mha agweddau a allai addasu'r berthynas rhwng y grwpiau gofal a nodwyd yn ystod y cyfnod cyn y glasoed (geni-10/11 oed) a chyrhaeddiad mewn TGAU. Roedd yr holl ffactorau ysgol a'r ffactorau unigol a archwiliwyd yn y dadansoddiad hwn yn digwydd yn ystod yr ysgol uwchradd (blynyddoedd 7-11). Gyferbyn, rydyn ni'n dangos nodweddion ein sampl.

Anghenion Addysgol Arbennig

Gwelsom fod gan bobl ifanc oedd ag AAA unrhyw bryd yn yr ysgol uwchradd ostyngiad o 87% yn eu hods o gyflawni CA4; hefyd, roedd gan ferched ostyngiad o 47% yn yr ods o adnabod AAA o'u cymharu â bechgyn.

Welson ni ddim tystiolaeth bod AAA yn esbonio'r berthynas rhwng y proffiliau profiad gofal a chanlyniadau CA4. Serch hynny, roedd gan leoliadau cymysg hirdymor ods uwch o fod ag AAA (tuag 84%).

Symud ysgol

Roedd symud ysgol yn gysylltiedig â gostyngiad o 46% yn yr ods o gyflawni TGAU. Ar ben hynny, wrth i lefel y cyfoeth gynyddu adeg eu geni, roedd gan blant ods 6% yn llai o symud ysgolion; er hynny, roedd gan ferched ods 39% yn fwy o symud ysgol.

O ran y proffiliau profiad gofal, roedd y rhai a ddychwelodd adref yn gynharach o leiaf ddwywaith yn debycach o symud ysgol o'u cymharu â'r holl broffiliau gofal eraill. Gwelsom hefyd fod symud ysgol yn newidyn aflonyddgar i'r grŵp hwn o'i gymharu â phroffiliau eraill. Gan hynny, gwelwn y gallai symud ysgol fod yn risg ar gyfer cyrhaeddiad TGAU i'r rhai a ddychwelodd adref yn gynharach i rieni biolegol ar ôl cyfnod byr mewn gofal.

Presenoldeb yn yr Ysgol

Yn anffodus, weithiodd y model hwn ddim, a hynny oherwydd y niferoedd bach yn ein dadansoddiad.

Prydau Ysgol am Ddim

Gwelsom fod gan blant mwy cefnog 7% yn llai o ods o gymryd prydau ysgol am ddim, ac nid oedd unrhyw wahaniaethau ar gyfer rhyw.

Roedd plant aeth i ofal am gyfnod byr ac a ddychwelodd adref yn debycach o fod yn derbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â grwpiau eraill, yn ogystal â'r rhai a aeth i mewn i ofal byrdymor yn hwyr. Gwelsom fod prydau ysgol am ddim yn ffactor risg ar gyfer cyrhaeddiad TGAU yn benodol ar gyfer plant a aeth i ofal yn gynnar, aros am gyfnod byr ac yna dychwelyd adref.

Atal a/neu wahardd

Roedd cael eich gwahardd neu eich atal o'r ysgol yn lleihau'r tebygolrwydd o gyflawni TGAU 70%. Roedd gan y plant mwy cefnog ods 8% yn is o gael eu gwahardd neu eu hatal, ac roedd gan ferched ods 37% yn llai o gael eu hatal neu eu gwahardd. O'u cymharu â'r rhai a aeth i mewn i ofal yn gynnar ac a ddychwelodd adref, roedd gan y rhan fwyaf o broffiliau eraill debygolrwydd is o gael eu hatal neu eu gwahardd. Gan hynny, mae ataliadau a gwaharddiadau yn ffactor risg yn benodol i'r rhai sy'n mynd i ofal yn gynnar ac sy'n dychwelyd adref ar gyfer cyrhaeddiad TGAU.

Salwch meddwl

Yn anffodus, weithiodd y model hwn ddim, a hynny oherwydd y niferoedd bach yn ein dadansoddiad..

1/20

Profodd 1 o bob 20 broblem iechyd meddwl tra oedden nhw yn yr ysgol uwchradd

Roedd 75% o blant wedi cael eu hadnabod ag AAA ar unrhyw adeg

75%

93%

Ar gyfartaledd, roedd presenoldeb yn 93% a chafodd 1 o bob 2 brydau ysgol am ddim

Roedd 35% wedi'u hatal neu wedi'u gwahardd



35%

14%

Cyrhaeddodd 14% 5 A*-C gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a Mathemateg

Dehongli canlyniadau'r prosiect

Does dim modd dadansoddi'r profiad o fod mewn gofal a'i berthynas â chyrhaeddiad addysgol fel dealltwriaeth syml o fynd i mewn i ofal am gyfnod byrdymor yn erbyn hirdymor, neu fynd i mewn i ofal yn gynnar yn erbyn mynd yn nes ymlaen. Mae gan blant brofiadau cymhleth o ofal, sef profiadau y ceisiodd ein dadansoddiad eu disgrifio, ac mae'r gwahaniaethau hyn yn dylanwadu ar brofiadau a chanlyniadau addysgol.

Profiadau o fod mewn gofal yn y blynyddoedd cynnal a chyrhaeddiad

Gwelsom fod y rhai a gafodd eu mabwysiadu yn bodloni'r disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer cyrhaeddiad yn ystod saith mlynedd cyntaf eu bywyd. Rydyn ni'n credu bod hyn yn digwydd am fod gan y plant hyn fwy o sefydlogrwydd yn y blynyddoedd cynnar, ynghyd â'u bod yn fwy cefnog fel y cofnodir yma ac mewn ymchwil arall. Ar gyfer grwpiau oedd â phrofiad o fod mewn gofal lle roeddent yn aros o fewn yr uned deuluol estynedig - naill ai gofal byrdymor, gyda pherthynas neu yng ngofal eu rhieni - roedd y cyrhaeddiad addysgol yn uwch (63-66%). Rydym yn damcaniaethu y gallai'r plant hyn fod yn llai tebygol o fod wedi cael profiadau mwy difrifol - fel camdriniaeth neu esgeulustod - o gofio'r opsiwn o leoli plant gyda pherthnasau. Er hynny, rydym yn cydnabod bod y mwyafrif o blant sy'n mynd i mewn i'r system gofal wedi profi straen, adfyd neu drawma ac ni lwyddwyd i ddisgrifio hyd a lled hyn yn yr ymchwil hon. Welson ni ddim gwahaniaethau i'r rhai a oedd â lleoliadau gofal gyda pherthnasau neu mewn gofal maeth, ond roedd cyrhaeddiad cyfartalog is gan y rhai a oedd wedi mynd i mewn i ofal maeth ychydig cyn yr ysgol yn y blynyddoedd cynnar. Yn olaf, mae'n ymddangos mai plant a aeth i ofal ychydig cyn yr ysgol ac a arhosodd mewn gofal oedd leiaf tebygol o gyflawni a'u bod yn debycach o fod wedi'u geni mewn dengradd ddifreintiedig. Gallai'r amseriad agos rhwng mynd i mewn i ofal a dechrau yn yr ysgol, ac amddifadedd, fod yn ffactorau sy'n cyd-ddigwydd ar gyfer cyrhaeddiad ac sy'n gofyn rhagor o waith ymchwil.

Profiadau mewn gofal cyn y glasoed a chyrhaeddiad

Gwelsom mai'r rhai a gafodd eu mabwysiadu oedd â'r cyrhaeddiad academaidd uchaf. Er hynny, roedd hyn 20 pwynt canran yn is na lefel gyffredinol y boblogaeth o 80%. Mae'n bosibl bod gan y grŵp hwn debygolrwydd uwch o gyflawni oherwydd sefydlogrwydd cynnar a chyfoeth, ond mae yna fwlch cyrhaeddiad sy'n dod i'r amlwg ac sy'n gofyn am ymchwil ac ymyrraeth. Cyflawnodd y rhai a gafodd eu hailuno â'u rhieni biolegol yn gynharach mewn bywyd yn uwch ar gyfartaledd o'u cymharu â phroffiliau eraill (52%). Mae hyn yn herio'r syniad bod y rhai sy'n dychwelyd i'w rhieni biolegol yn perfformio'n is o ran eu cyrhaeddiad, gan awgrymu y gall dychwelyd i amgylchedd mwy diogel ar ôl ymyriad fod yn gymorth ar gyfer canlyniadau addysgol.

Er hynny, y grŵp a aeth i ofal yn ddiweddarach ond a gafodd eu hailuno â'u rhieni biolegol oedd â'r cyrhaeddiad isaf (36%); roedd y grŵp hwn yn cynnwys chwarter o'n sampl. Mae'r ymchwil yn awgrymu y gallai plant sy'n dod i mewn i ofal yn nes ymlaen fod â phroblemau ymddygiad, ond gall gofal cynharach ddynodi sefyllfaoedd teuluol heriol. Mae'n bosibl bod yna lwybr achosol lle mae adfyd yn cael ei brofi ac yn gysylltiedig ag ymddygiadau heriol, sy'n cael eu hamlygu wedyn ar ffurf mynd i mewn i ofal a chyrhaeddiad addysgol is. Er hynny, damcaniaethol yn unig yw hyn ac mae angen rhagor o ymchwil yn y maes hwn.

Roedd gan ein grwpiau terfynol – sef gofal maeth, gofal rhieni neu ofal perthnasau - gyfrannau tebyg o gyflawni canlyniadau CA2, rhwng 42 a 48%. O ran plant a aeth i leoliadau gofal maeth yn unig, llwyddodd 43% ar gyfartaledd i gael canlyniadau CA2; roedd gan y plant hyn debygolrwydd isel o fod yng ngofal eu rhieni neu eu perthnasau ac nid oeddent yn debygol o ddychwelyd adref. Yn achos ein grwpiau lleoliadau cymysg nodwyd bwlch cyrhaeddiad o 6%, a'r gwahaniaeth diffiniol yn ein data oedd oedran mynd i mewn i ofal; roedd yr holl fetrigau eraill i raddau helaeth yn debyg (h.y. tebygrwydd y math o leoliad). Gwelsom fod gan y rhai a aeth i ofal mewn lleoliadau cymysg yn gynharach yn 1 oed gyrhaeddiad is (42%), o'u cymharu â'r rhai a aeth i mewn yn nes ymlaen, yn 3 oed (48%). I'r rhai a brofodd ofal gyda pherthnasau yn bennaf, ac nid gofal rhieni neu ofal maeth, gwelsom fod 45% ar gyfartaledd yn cyflawni CA2. Digwyddodd hyn yn ddiweddarach mewn bywyd yn 8 oed, sy'n cymharu â'n grŵp mynediad hwyr arall lle roedd 36% yn cyflawni ar gyfartaledd (ac yn dychwelyd adref gyda'u rhieni wedyn). Mae arnon ni angen rhagor o ymchwil i ddeall y canfyddiadau hyn, ond rydym yn amlinellu bod y rhai oedd yn byw gyda pherthnasau wedi gwneud yn debyg iawn i'w gilydd.

Beth sy'n gweithio ar gyfer cyrhaeddiad TGAU plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal?

Yn gyntaf, roedd symud ysgol ddwywaith yn fwy tebygol i'r rhai a aeth i ofal yn gynnar ac yna dychwelyd adref – ac o hyn roedd y symudiadau hyn yn gysylltiedig â gostyngiad o 46% yn yr ods o gyflawni TGAU. O gofio bod y plant hyn yn byw gyda'u teulu genedigol cyn mynd i'r ysgol uwchradd, mae'n bosibl bod symud ysgol yma yn dynodi materion yn yr ysgol, neu symudiadau mewn gofal. Roedd hyn yn gyson â'n sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd gyda phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal oedd yn eiriol yn erbyn symud ysgol gan fod hynny'n effeithio ar gyrhaeddiad.

Gwelsom hefyd y gallai prydau ysgol am ddim olygu risgiau ychwanegol ar gyfer cyrhaeddiad i'r rhai oedd yn dychwelyd i'w teulu biolegol yn y blynyddoedd cynnar. Mae'n bosibl bod y symudiadau hyn yn golygu bod plant yn mynd i mewn i lefelau amddifadedd, gan eu bod yn dod yn gymwys i gael cymorth ariannol. Mae amddifadedd yn gysylltiedig ag amryw o ganlyniadau gan gynnwys problemau ymddygiad, mynediad at bethau materol a phroblemau iechyd meddwl a allai fod yn llwybrau posibl tuag at gyrhaeddiad is. Gan hynny, mae angen mwy o gymorth i bobl ifanc sydd ar brydau ysgol am ddim ac sydd â hanes o fod mewn gofal, lle gallai fod anfantais ddwbl nad yw'n cael ei chydnabod gan ysgolion.

Yn olaf, gwelsom mai'r rhai a ddychwelodd adref yn y blynyddoedd cynnar oedd â'r risg fwyaf o gael eu hatal dros dro a'u gwahardd, a bod y profiad hwn yn ffactor risg penodol ar gyfer eu cyrhaeddiad addysgol o'u cymharu â grwpiau sydd wedi profi lleoliadau yn ddiweddarach yn ystod plentyndod. Yn yr un modd â'r uchod, gwelwn fod y grŵp hwn yn agored yn benodol i dderbyn prydau ysgol am ddim, symud ysgol a chael eu hatal a'u gwahardd o'i gymharu â grwpiau gofal eraill yn yr ysgol uwchradd. Rydym yn damcaniaethu yn y fan yma y gall fod llu o faterion yn digwydd i'r grwpiau hyn, a bod angen rhagor o ymchwil ar y rhai sy'n dychwelyd adref yn y blynyddoedd cynnar. Er hynny, rydym yn dal ei bod yn debygol y bydd angen rhagor o gymorth ar y grŵp hwn mewn lleoliadau ysgol gan ei bod yn ymddangos bod anawsterau yn yr ysgol yn peri risg benodol ar gyfer cyrhaeddiad TGAU.

Casgliadau

Rydym yn herio'r syniad bod modd canfod cyrhaeddiad drwy nodweddion syml gofal, megis gofal byrdymor yn erbyn gofal hirdymor, a gofal gyda pherthnasau yn erbyn gofal maeth. Rydym yn amlinellu nifer o ffactorau sy'n llywio profiadau gofal, ac sydd â chysylltiadau â chyrhaeddiad addysgol hyd at 16 oed. Dylai ymchwilwyr a gwneuthurwyr polisi fod yn ymwybodol bod y profiad o fod mewn gofal yn llawer mwy cymhleth na phwyntiau terfyn syml, ac nad yw plant yn cyrraedd eu potensial o gofio bod lefelau CA2 rhwng 36 a 60% ar gyfartaledd, o'i gymharu â'r 80% yn y boblogaeth gyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys plant wedi'u mabwysiadu, a welodd ostyngiad yn eu lefelau cyrhaeddiad cyfartalog rhwng CA1 i CA2. Ar ben hynny, mae plant sy'n mynd i mewn i ofal ac sy'n dychwelyd adref yn fuan yn y blynyddoedd cynnar yn wynebu'r risg o amddifadedd, symud ysgol ac atal/gwahardd, sy'n awgrymu bod problemau ymddygiad ac ansefydlogrwydd yn barhaus ac angen ymyrraeth er nad ydynt yn mynd yn ôl i mewn i ofal yn ystod yr ysgol gynradd.

Rydym yn nodi mai bach yw maint y sampl yn ein data ond mae'n caniatáu ar gyfer dilyniant hydredol dros gyfnod o 16 mlynedd. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd i gyd wedi'u seilio ar debygolrwydd ac nid ydynt yn drosglwyddadwy i gyd-destunau eraill nac yn achosol - maent yn benodol i Gymru ar gyfer y rhai a anwyd ar ddechrau'r 2000au. Rydym hefyd yn cydnabod nad yw'n hastudiaeth yn dal manylion am brofiadau yn y groth (e.e., defnyddio cyffuriau'n anghyfreithlon, cortisol), yn gorganolbwyntio ar ddylanwad y fam, ac yn tan-ganolbwyntio ar ddylanwad y tad (neu'r cyd-riant).

Er y diffygion hyn, rydym yn datgelu nad yw plant sydd wedi bod mewn gofal yn debygol o gyrraedd eu potensial addysgol, ac mae angen rhagor o ymchwil ar gyfraniad ffactorau cyn-ymyrraeth a allai esbonio hyn ymhellach, h.y. camdriniaeth neu esgeulustod. Yn olaf, rydym yn pwyso am gefnogaeth barhaus i blant sy'n dychwelyd at eu rhieni biolegol, gan y gallai'r teuluoedd hyn fynd yn gudd i'r gwasanaethau er bod arnyn nhw angen cymorth ychwanegol.

Cyfeirnodau

1 Viner, R. M., a Taylor, B. (2005). Adult Health and Social Outcomes of Children Who Have Been in Public Care: Population-Based Study. Pediatrics, 115(4).

2 Berridge, D., Luke, N., Sebba, J., Strand, S., Cartwright, M., Staples, E., McGrath-Lone, L., Ward, J., ac O'Higgins, A. (2020). Children in Need and Children in Care: Educational Attainment and Progress. 221.

3 Sinclair, I., Fletcher, J., O'Higgins, A., Luke, N., a Thomas, S. (2021). 'Closing the gap': The conditions under which children in care are most likely to catch up in mainstream schools. Oxford Review of Education, 1–18.

4 Forsman, H., Brännström, L., Vinnerljung, B., a Hjern, A. (2016). Does poor school performance cause later psychosocial problems among children in foster care? Evidence from national longitudinal registry data. Child Abuse & Neglect, 57.

5 Marmot, M. (2005). Social determinants of health inequalities. Lancet, 365(6).

6 Bjorkenstam, C., Weitoft, G. R., Hjern, A., Nordstrom, P., Hallqvist, J., a Ljung, R. (2011). School grades, parental education and suicide – A national register-based cohort study. Journal of Epidemiology & Community Health, 65(11).

7 Gauffin, K., Vinnerljung, B., Fridell, M., Hesse, M., a Hjern, A. (2013). Childhood socio-economic status, school failure and drug abuse: A Swedish national cohort study. Addiction, 108(8).

8 Sebba, J., Berridge, D., Luke, Nikki, Fletcher, J., Bell, K., Strand, Steve, Thomas, S., Sinclair, I., O'Higgins, A., Rees Centre for Research on Fostering and Education, Prifysgol Rhydychen a Phrifysgol Bryste. (2015). The educational progress of looked after children in England: Linking care and educational data.

9 O'Higgins, A., Luke, N., a Strand, S. (2021). Children in care in education: Who is entered for exams and who reaches critical thresholds of success at age 16? British Educational Research Journal, berj.3736.

10 Sinclair, I., Fletcher, J., O'Higgins, A., Luke, N., a Thomas, S. (2021). 'Closing the gap': The conditions under which children in care are most likely to catch up in mainstream schools. Oxford Review of Education, 1–18.

11 Evans, R., Brown, R., Rees, G., a Smith, P. (2017). Systematic review of educational interventions for looked-after children and young people: Recommendations for intervention development and evaluation. British Educational Research Journal, 43(1), 68–94.

12 Mae panel defnyddwyr SAIL yn cynnwys tua dwsin o aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sy'n rhoi eu barn ar gynigion ymchwil, diogelu data, lledaenu a recriwtio.

13 Jones et al. 2014. A case study of the Secure Anonymous Information Linkage (SAIL) Gateway: a privacy protecting remote access system for health-related research and evaluation. Journal of Biomedical Informatics.

14 Ford et al. 2009. The SAIL Databank: building a national architecture for ehealth research and evaluation. BMC Health Services Research. 9:157.

15 Lyons et al. 2009. The SAIL databank: linking multiple health and social care datasets. BMC Medical Informatics and Decision Making. 9:3.

16 Rodgers et al. 2011, Protecting health data privacy while using residence-based environment and demographic data. Health and Place.

17 Rodgers et al. 2009. Residential Anonymous Linking Fields (RALFs): a novel information infrastructure to study the interaction between the environment and individuals' health. Journal of Public Health (Oxf). Dec 31 (4): 582-588.